Cofnodion cyfarfod Cyngor Dinas Bangor a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn ar **yr 8fed Ebrill 2024 am 6.30 pm**

PRESENNOL:- Ei Theilyngdod y Maer Cyng. Elin Walker Jones (Cadeirydd) Dirprwy Faer Cyng. Gareth Parry, Cyng. Dylan Fernley, Cyng. Eirian Williams Roberts, Cyng. Gwynant Roberts, Cyng. Huw Wyn Jones (Gadawodd am 19:30), Cyng. John Wyn Jones, Cyng. John Wyn Williams, Cyng. L. Toth, Cyng. Mark Roberts, Cyng, Nigel Pickavance, Cyng. Steve Bell, Cyng. Medwyn Hughes, Cyng. Delyth Russell, Cyng. Beverly Jones, Cyng. Simon Hibbs

Swyddogion:- Martin Hanks (Cyfarwyddwr Dinesig), Llinos F. Jones, (Dirprwy Gyfarwyddwr Dinesig), a Sioned Jones (Cyfieithydd).

**134/ 23 YMDDIHEURIADAU :** Cyng Salamatu Fada, Cyng Lisa Toth, Cyng Gareth Roberts, Cyng. Meic Pattison.

**135/23 DATGAN BUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL.**

Dim

**136/23 CYFETHOL CYNGHORWYR NEWYDD.**

Derbyniodd y Cyngor gyflwyniad byr gan ddarpar Gynghorydd Ward Marchog,

Simon Hibbs.

**PENDERFYNWYD:** cyfethol Simon Hibbs i sedd wag Ward Marchog.

**137/23 ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR DINESIG.**

*Dosbarthwyd yr Adroddiad cyn y cyfarfod.*

Dywedodd y Cyfarwyddwr fod holl elfennau cyfalaf y prosiect uwchraddio'r Stryd Fawr bellach wedi'u cwblhau. Fodd bynnag, rydym yn dal i aros am fannau gwefru cerbydau trydan, meinciau a phlanhigion i gwblhau'r cam hwn o'r prosiect. Mae gwaith tuag at sefydlu canolfan gymunedol yng Nghanol y Ddinas yn parhau i fynd rhagddo. Yn ogystal â Gwasanaethau Ieuenctid Gwynedd, GISDA, Abbey Road, ac eraill (a ddeilliodd o'r symposiwm 3ydd sector ym mis Ionawr), mae Prifysgol Bangor a Betsi Cadwaladr yn gobeithio cymryd rhan hefyd. Mae'r paratoadau ar gyfer Bangor 2025 bellach yn dechrau datblygu'n dda. Mae trefnydd digwyddiadau profiadol, sydd ag amser ar gael, wedi'i hadnabod i gynorthwyo'r Cyngor. Bydd rhagor o wybodaeth ar gael yn y cyfarfod nesaf. Yn ogystal â hyn, bydd ymgynghoriadau a thrafodaethau ar y gweill gydag amrywiol randdeiliaid eraill yn Neuadd y Penrhyn dros y pythefnos nesaf.

**PENDERFYNWYD:** Derbyn Adroddiad y Cyfarwyddwr Dinesig.

**138/23 CYMERADWYO COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR 11eg MAWRTH 2024.**
*Roedd y cofnodion wedi'u dosbarthu o flaen llaw i'r Cynghorwyr.*

**PENDERFYNWYD:** cymeradwyo cofnodion 11eg Mawrth fel rhai cywir.

**139/23 ETHOL MAER AR GYFER BLWYDDYN GYNGOR 2024 - 2025**

Gwahoddwyd enwebiadau. Enw'r Dirprwy Faer, y Cynghorydd Gareth Parry

Derbyniodd Gareth Parry yr enwebiad ac roedd pawb o blaid. Bydd y Cynghorydd Parry yn cael ei ethol yn ffurfiol yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor ar 13eg Mai 2024.

**140/23 ETHOL DIRPRWY FAER AR GYFER BLWYDDYN GYNGOR 2024 - 2025**

Gwahoddwyd enwebiadau a chynigiwyd dau enw.

Yn dilyn pleidlais, dewiswyd y Cyng. Medwyn Hughes yn briodol a bydd yn cael ei ethol yn ffurfiol yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor ar 13 Mai 2024.

**141/23 CYMERADWYO PRYNU BLODAU GWYLLT/HADAU PEILLWYR:**

**i) Plannu ar Dir Cyngor Dinas Bangor.**

**ii) Atodi Rhaglen Cyngor Gwynedd.**

Mae Cyngor Gwynedd wedi cychwyn prosiect blodau gwyllt ar Ffordd Caernarfon, gofynnwyd i Gyngor Dinas Bangor gefnogi ac adnabod mannau eraill o amgylch y Ddinas a allai elwa o'r prosiect hwn hefyd.

- **i)** **PENDERFYNWYD :-** caniatau i Gyngor Gwynedd blannu ar dir Cyngor y Ddinas.
- **ii)** **PENDERFYNWYD :-** canfod rhagor o fannau o amgylch y Ddinas.

**142/23 TRAFOD CYFLWYNO POLISI BANER DATHLU CYHOEDDUS.**

Cynigiwyd bod y Cyngor yn codi baneri i gyd-fynd â digwyddiadau arwyddocaol o bob prif grefydd yn y Ddinas. Yn dilyn trafodaeth fer, penderfynwyd gohirio'r eitem hon am 2 flynedd nes i densiynau presennol y byd ddod i ben.

**Daeth y cyfarfod i ben am 8.00pm**

DIPRWY GYFARWYDDWR DINESIG – Llinos Fon Jones – DEPUTY CITY DIRECTOR